# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018

Amser: 08.30 - 08.44

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Mark Drakeford AC<br>Andrew RT Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ymddiheurodd Arweinydd y Tŷ, a daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ei lle.

Ymddiheurodd Paul Davies, a daeth Andrew RT Davies yn ei le.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Nododd Rheolwyr Busnes fod newid i'r amserlen OAQ ar gyfer mis Mawrth 2018; bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth bellach yn ateb cwestiynau ar 7 Mawrth, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Mawrth. Mae hyn oherwydd y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth dramor yn ystod y slot a ddyrannwyd iddo. Mae'r amserlen ar-lein wedi'i diwygio yn unol â hynny.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 7 Chwefror 2018**

- Cynnig Comisiwn y Cynulliad: Ymgynghori ar Ddiwygio'r Cynulliad (30 munud)

**Dydd Mercher 14 Chwefror 2018 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i unigrwydd ac unigedd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

### 3.4 Dadleuon Aelodau: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

- Y Rheolwyr Busnes i ddewis cynnig ar gyfer dadl ar 31 Ionawr:

**NNDM6626**

**Mick Antoniw**

**Sian Gwenllian**

**David Melding**

**David Rees**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod contractau preswyl lesddaliad yn parhau i gynrychioli cyfran sylweddol o eiddo a adeiladir o'r newydd yng Nghymru; a

a) bod contractau preswyl lesddaliad yn aml yn cael eu cynnig ar delerau anfanteisiol, gan arwain at niwed i berchennog y cartref; a

b) mai ychydig o amddiffyniad sydd gan berchnogion cartrefi lesddaliad rhag ffioedd afresymol ac oedi afresymol wrth brynu, gwerthu neu wella eu heiddo.

2. Yn nodi gwaharddiad arfaethedig Llywodraeth y DU ar werthu eiddo lesddaliad a adeiladir o'r newydd yn Lloegr.

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddiogelu perchnogion cartrefi yn y dyfodol drwy ddiddymu contractau preswyl lesddaliad yng Nghymru.

- Cytunodd Rheolwyr Busnes i drefnu'r Ddadl Aelodau nesaf ar 14 Chwefror, a dewisodd y cynnig canlynol:

**NNDM6635**

**Dai Lloyd**

**Mike Hedges**

**David Melding**

**Nick Ramsay**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nifer y ffyrdd yng Nghymru sydd heb eu mabwysiadu, ac felly nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol perthnasol.

2. Yn nodi bod nifer o ddatblygwyr heb adeiladu ffyrdd ar ystadau newydd i safonau mabwysiadwy.

3. Yn cydnabod bod gwendidau yn y broses o brynu tai, ac nid yw bob amser yn sicrhau bod gan brynwyr symiau dargadw ariannol digonol yn eu lle i ddod â'r ffyrdd hyn at safon mabwysiadwy'r awdurdod lleol.

4. Yn cydnabod bod y prynwyr tai hynny yn aml yn wynebu gorfod buddsoddi symiau sylweddol o arian er mwyn dod â ffyrdd at safon mabwysiadwy'r awdurdod lleol.

5. Yn nodi bod nifer o'r ffyrdd hyn yn parhau i fod heb eu mabwysiadu ac mewn cyflwr gwael, am nifer o flynyddoedd, weithiau yn fytholbarhaus.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu tasglu, i gynnwys awdurdodau lleol, y proffesiwn cyfreithiol, datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, gyda golwg ar ddatblygu gwelliannau i'r broses o brynu tai a mabwysiadu ffyrdd.

7. Yn ceisio datblygu rhaglen Cymru gyfan i sicrhau gostyngiad yn nifer y ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Trafododd y Rheolwyr Busnes gais y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am estyniad i ddyddiad cau adrodd Cyfnod 1 hyd at 9 Mawrth 2018 ac estyniad, o ganlyniad, i ddyddiad cau Cyfnod 2. Yn lle hynny, cynigiodd Llywodraeth Cymru estyniad hyd at 2 Mawrth , ar y sail, fel arall, y gellid ond cynnal dadl Cyfnod 1 (y mae'n rhaid ei gwblhau cyn y Prif Ddiwrnod Penodedig) yn ystod wythnos olaf y tymor, a oedd yn lefel risg annerbyniol yn eu barn nhw.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ofyn i'r Pwyllgor ystyried cynnig y Llywodraeth. Petai'r Pwyllgor yn cytuno, byddai'r Pwyllgor Busnes yn cadarnhau'r estyniad y tu allan i'r Pwyllgor; pe na fyddai'r Pwyllgor yn cytuno, byddai'r Pwyllgor Busnes yn edrych ar y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes â'r cais i gyfeirio pob Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y dyfodol at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'w hystyried, yn ogystal ag unrhyw bwyllgor perthnasol arall.